

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

New Image, Bangor

Dyddiad yr arolygiad: 3 Ionawr
2018

Dyddiad cyhoeddi: 4 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
4.	Beth nesaf?	18
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	19
	Atodiad A- Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B- Cynllun gwella.....	21

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â rhybudd o New Image ar 3 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm, ar gyfer yr arolygiad, yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom dystiolaeth bod New Image yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddgar.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r clinig wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion
- Roedd y clinig yn lân ac yn daclus iawn
- Roedd y staff yn gwrtais ac yn ofalgar ac yn gwrando ar gleifion
- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar eu triniaeth ac ar y gwasanaethau a ddarperir
- Roedd gan y clinig system ar waith i geisio barn cleifion.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r rheolwr cofrestredig adnewyddu'r hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed
- Mae angen diweddariadau i ganllaw'r claf a'r datganiad o ddiben.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae New Image wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol gan ei fod yn darparu triniaeth laser Dosbarth 3B/4 a Thriniaeth Golau Pwls Dwys ¹ yn 317 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd, LL57 1YA. Cafodd y clinig ei gofrestru am y tro cyntaf gydag AGIC ar 4 Hydref 2007.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm staff yn cynnwys y rheolwr cofrestredig fel yr unig weithredwr laser. Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 oed:

Ellipse Light STP ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Adfywio'r croen
- Triniaethau fasgwlaidd
- Acne

¹ Mae golau pwls dwys yn dechnoleg ffynhonnell oleuni sbectrwm eang sy'n cael ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i gyflawni triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetig a therapiwtig

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwnaethom ganfod tystiolaeth bod New Image yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddgar.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael barn ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Cafodd cyfanswm o 15 o holiaduron eu cwblhau, yn amrywio o gleifion newydd i'r clinig (yn mynychu am lai na 12 mis) i gleifion rheolaidd yn y clinig (yn mynychu am fwy na phum mlynedd).

Roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, a nododd cleifion fod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ar eu cyfer yn rhagorol. Roedd sylwadau cleifion a oedd yn canmol y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y clinig yn cynnwys y canlynol:

"Safonau uchel cyson ac yn cael ei redeg yn effeithlon iawn."

"Croeso â gwên bob amser. Amgylchedd cyfeillgar a phroffesiynol. Mae'r Salon wedi'i addurno'n hynod o dda ac yn creu awyrgylch digynnwrf braf."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnid i gleifion lenwi a llofnodi ffurflen hanes meddygol ar ddechrau pob triniaeth.

Urddas a pharch

Dywedodd pob claf a wnaeth gwblhau holiadur fod staff bob amser yn gwrtais, yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth a'u bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r clinig. Roedd sylwadau'r cleifion yn yr holiaduron ynghylch y staff yn cynnwys:

"Bob amser yn gyfeillgar ac yn broffesiynol iawn"

"Rwyf wedi bod yn gwsmer yn New Image ers 1996 ac ni fyddwn byth yn ystyried mynd i rywle arall. Mae'n amgylchedd cyfforddus ac mae [staff sy'n cael eu henwi] yn gyfeillgar iawn ac yn gwrando ar fy storïau bywyd bob amser! "

"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn rhoi'r holl wybodaeth a chynghor yr wyf ei angen."

Roedd lle ar gael i staff gael sgysiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd. Gwnaethom drafod y broses a ddilynwyd i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod triniaeth â'r rheolwr cofrestredig. Gall cleifion baratoi ar gyfer triniaeth yn breifat ac roedd tywelion gwyleidd-dra a gynau tŷ yn cael eu darparu.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf bod staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad. Cytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, yr opsiynau triniaeth wahanol sydd ar gael, costau gwasanaethau, a gwasanaethau gofal ôl-driniaeth.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth. Gofynnwyd i gleifion roi caniatâd ysgrifenedig ar ddechrau'r driniaeth a gofynnwyd iddynt hefyd lofnodi ffurflen ganiatâd ar ddechrau pob triniaeth ddilynol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd mwyafrif y cleifion a oedd wedi cwblhau holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i wneud cwyn os oeddent yn anfodlon ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y clinig.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael yn yr ystafell aros i gleifion fynd â nhw. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig. Fodd bynnag, canfuom y dylai'r wybodaeth ganlynol gael ei chynnwys:

- y trefniadau a oedd yn cael eu gwneud i geisio barn cleifion am ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.

Canfuom hefyd fod angen y diweddariadau canlynol i'r canllaw i gleifion er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliad:

- swm a dull talu taliadau gan gleifion ar gyfer pob agwedd ar eu triniaeth
- y trefniadau a oedd yn cael eu gwneud i geisio barn cleifion ynglŷn ag ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.

Dim ond cleifion dros 18 oed sy'n gallu cael eu trin yn unol â'r amod cofrestru.

Mae gan y clinig wefan a'i thafleuni gwybodaeth ei hun sy'n darparu gwybodaeth ynglŷn â'r triniaethau sydd ar gael.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a chanfuom dystiolaeth bod dull eglur a thryloyw o brisio triniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarau canllaw a datganiad o ddiben cleifion yn unol â'r rheoliadau ac anfon copi at AGIC.

Cynllunio a darparu gofal

Mae'r holl gleifion yn cael apwyntiad ymgynghori cyn cychwyn triniaeth, sy'n cynnwys asesiad o fath eu croen. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a dogfennau ôl-ofal da yn cael eu rhoi i gleifion, a oedd yn cynnwys manylion y risgiau a'r buddion.

Roedd nodiadau manwl ar gael ar bob claf unigol, gyda thystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da. Roedd fformatau dogfen dda ar waith yn cwmpasu math o groen, caniatâd i driniaeth a hanes meddygol.

Gwelsom fod cofrestr o driniaethau'n cael ei chynnal ac yn cael ei chadw'n gyfoes. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i gofnodi'r man a gafodd ei drin a chytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn ar unwaith.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r clinig wedi'i leoli ar y llawr cyntaf ac nid yw'n gallu darparu mynediad i'r anabl. Fodd bynnag, bydd y clinig yn rhoi manylion o ddarparwr arall i gleientiaid na allant gael mynediad at yr eiddo os oes angen.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Canfuom fod gan y clinig system ar waith ar gyfer ceisio adborth gan gleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu. Gwelsom yr adroddiad dadansoddi diweddaraf a oedd yn cael ei arddangos yn amlwg yn yr ystafell aros.

Gallai cleifion ddarparu adborth trwy holiaduron cleifion ar ddiwedd pob triniaeth. Roedd adborth a sylwadau hefyd yn gallu cael eu gwneud yn ddiennw.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Roedd digon o gyfarpar yn yr ystafell driniaeth ac roedd i'w gweld yn lân ac yn daclus.

Canfuom fod y clinig wedi cymryd camau i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod profion offer cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gwiriad o wifrau trydanol yr adeilad wedi'i gynnal o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau diogelwch tân. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau ei bod wedi cynnal hyfforddiant diogelwch tân mewnol. Dangosodd labeli gwasanaethu'r diffoddwyr tân eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân i'w gweld yn glir. Roedd asesiadau risg tân wrth waith a gwelsom dystiolaeth bod y rhain wedi'u hadolygu'n rheolaidd. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cynnal profion larwm tân wythnosol ac ymarferion tân blynyddol.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael ac un aelod o staff wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn gwirio cynnwys y pecyn cymorth cyntaf yn rheolaidd gan sicrhau bod yr holl eitemau o fewn eu dyddiad dod i ben.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod y clinig yn amlwg yn lân a thaclus iawn. Buom yn trafod y trefniadau rheoli heintiau a oedd ar waith â'r rheolwr cofrestredig ac roeddem

o'r farn bod y rhain yn briodol i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn adolygu'r polisi rheoli heintiau gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gweithdrefnau glanhau ar gyfer yr adeilad a'r ystafell laser. Rydym hefyd yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn dyfeisio amserlen lanhau fanylach yn unol â'r polisi diwygiedig.

Ni chafodd unrhyw bryderon eu mynegi gan gleifion ynghylch glendid y clinig; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo, yn eu barn nhw, bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol a gwelsom fod gan y gwasanaeth gontract ar waith gyda chlodwr gwastraff cymeradwy

Yr hyn y mae angen ei wella

Adolygu a diweddarau'r polisi rheoli heintiau i adlewyrchu'r gweithdrefnau glanhau presennol ar gyfer yr adeilad a'r ystafell laser a dyfeisio amserlen lanhau fanylach yn unol â'r polisi diwygiedig.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n ymdrin ag unrhyw faterion diogelu yn ymwneud ag oedolion. Roedd polisi diogelu ar waith gyda gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai pryder diogelu oedolion, ac roedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm cyfeirio diogelu lleol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn ymgymryd â hyfforddiant mewn diogelu oedolion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig adnewyddu ei hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth bod gan y peiriant laser dystysgrif gwasanaethu a graddnodi blynyddol a oedd yn gyfredol. Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriant laser, ac roedd y rhain wedi'u goruchwyllo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod cytundeb ar waith gydag Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau a rheolau lleol² yn manylu ar weithrediad diogel y peiriant. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau a'u llofnodi gan y rheolwr cofrestredig a oedd yn gweithredu'r peiriant laser.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth³ a hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant laser.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y peiriant laser. Roedd y cyfarpar diogelu llygaid mewn cyflwr da yn ôl pob golwg, a gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod pob sbectol yn cael ei gwirio am ddifrod yn rheolaidd.

Roedd arwydd tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn dynodi pryd roedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau hefyd bod drws yr ystafell driniaeth ar glo pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser. Dim ond â chod pin y gall y peiriant ei weithredu, gan atal mynediad anawdurdodedig.

Roedd polisi rheoli risg ar gael i ni ei weld ar ddiwrnod yr arolygiad.

² Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel a bod yn berthnasol i'r gwaith o reoli peiriannau laser, systemau golau pwls dwys a deuodau allyrru golau yn ddiogel o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

³ Bwriedir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar ddefnyddio laserau a systemau golau pwls dwys yn ddiogel.

Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau, a gwelsom gadarnhad bod yr holl gamau wedi cael eu cymryd.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod systemau addas ar waith yn y clinig i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Y rheswm am hyn yw bod y clinig, yn unol â'r rheoliadau, yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal, yn cynnal archwiliadau o gofnodion i sicrhau cysondeb gwybodaeth ac yn asesu risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Rheoli cofnodion

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod dystiolaeth bod nodiadau cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae gan New Image dîm sefydledig gydag arweinyddiaeth dda.

Roedd rheoli'r clinig o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan y rheolwr cofrestredig a oedd yn deall ei rôl a'i chyfrifoldebau yn glir ac roedd yn hynod ymroddedig i ddarparu gofal cleifion o safon uchel.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ac yn rhedeg New Image.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiâu a gweithdrefnau a oedd gan y clinig ar waith a gwelsom fod y rhain wedi'u hadolygu'n rheolaidd. Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad y fersiwn a/neu ddyddiad adolygu. Mae unrhyw newidiadau i bolisiâu neu weithdrefnau yn cael eu dwyn i sylw'r staff.

Cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig fod llinellau atebolrwydd clir yn y clinig, ac roedd y staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y clinig bolisi cwynion ar waith ac roedd yn darparu manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd manylion y weithdrefn gwynion hefyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi derbyn unrhyw gwynion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen iddynt wneud hynny.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod yr holl ddefnyddwyr awdurdodedig sy'n gweithredu'r peiriant laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser drwy'r gwneuthurwr.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Nododd y rheolwr cofrestredig fod y tîm staff cyfredol wedi'i hen sefydlu a disgrifiodd y prosesau recriwtio. Mae staff newydd yn gwneud cais am swydd trwy hysbyseb, yn cael eu cyfweld gyda geirdaon yn cael eu ceisio ac mae proses sefydlu'n cael ei defnyddio. Ni fyddai defnyddwyr awdurdodedig yn defnyddio'r peiriant laser cyn ymgymryd â hyfforddiant priodol a chyn i wiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu cynnal. Mae'r staff yn darllen ac yn llofnodi polisïau i nodi eu bod wedi eu deall fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: New Image

Dyddiad yr arolygiad: 3 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau ac anfon copi at AGIC.	18. Cyfathrebu'n effeithiol	Diweddarau Canllaw i Gleifion a'r Datganiad o Ddiben.	Lisa Owen	28/02/2018
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Adolygu a diweddarau'r polisi rheoli heintiau i adlewyrchu'r gweithdrefnau glanhau presennol ar gyfer yr adeilad a'r ystafell laser a dyfeisio amserlen lanhau fanylach yn unol â'r polisi diwygiedig.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Diweddarau'r polisi rheoli heintiau a'r amserlen lanhau yn yr ystafell Golau Pwls Dwys.	Lisa Owen	28/02/2018
Mae angen i'r rheolwr cofrestredig adnewyddu ei hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i	11. Diogelu plant a diogelu oedolion	Mae'r broses o ddod o hyd i gwrs Amddiffyn Oedolion Sy'n Agored i Niwed	Lisa Owen	09/03/2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
niwed	agored i niwed	eisoes wedi dechrau.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ddim yn berthnasol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): LISA OWEN

Swydd: Y Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 06/02/2018